



Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd
Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (Cyfeirnod yr achos: EN010137)

Agenda ar gyfer y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH1): Cwmpas y Datblygiad
Arfaethedig

Gwrandawriad	Dyddiad ac Amser	Lleoliad
Gwrandawriad Mater Penodol (ISH1): Cwmpas y Datblygiad Arfaethedig	Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 Gwrandawriad yn cychwyn am 2.00yp Seddi ar gael yn y lleoliad o 1.30yp a Chynhadledd Trefniadau rhithiol o 1.30yp	Venue Cymru, Promenade, Llandudno, LL30 1BB ac yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft Teams

Cafodd hysbysiad o'r dyddiad, amser, lleoliad a chyfarwyddiadau presenoldeb ar gyfer ISH1 ei ddarparu yn [llythyr Rheol 6 yr Awdurdod Archwilio \(ExA\) dyddiedig 7 Mehefin 2024](#).

Agenda

- 1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawriad**
- 2. Pwrpas y Gwrandawriad Mater Penodol**
- 3. Cwmpas y Datblygiad Arfaethedig**
 - Pwyntiau i'w hegluro ynghylch â, a'r rhesymeg am, y Gwaith arfaethedig a ddisgrifir yn Atodlen 1 o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) [AS-010] a'r Cynllun Gwaith [AS-003 ac AS-004] (atraeth, alltraeth a rhynglanwol).
 - Hyblygrwydd wrth ddisgrifio'r prosiect
 - Paramedrau'r prosiect a ddiffinnir yn y dDCO a'u hasesu yn y Datganiad Amgylcheddol.
 - Cynllun araeau alltraeth, bylchio a micro-leoli.
 - Ehangder y pwerau a geisir.
 - Budd y Gorchymyn (Erthygl 7 y dDCO).
 - Darpariaethau cychwyniad
 - Cyfnod cychwyniad o saith mlynedd (Gofyniad 1(1) y dDCO).

- Darpariaeth estyniad cyfnod cychwyniad (Gofyniad 1(2) y DCO).
- Cychwyn gweithgareddau morol trwyddedadwy (Atodlen 14 o'r dDCO).
- Diffiniad o gychwyniad (Erthygl 1 y dDCO) gan dynnu ar [Ddeddf Cynllunio 2008: Cynnwys Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol \(Ebrill 2024\)](#).

d. Camau'r prosiect awdurdodedig (Gofyniad 4)

e. Dynesiad o sicrhau mesurau lliniaru, monitro, digollediad a gwella

- Amserlen lliniaru a monitro'r Ymgeisydd [APP-196].
- Perthynas y cynlluniau rheoli a nodir yn y dDCO (gan dynnu ar [APP-197] ac [APP-211]).
- Defnydd priodol o Erthyglau, Gofynion, amodau trwydded forol dybiedig (DML) a chynlluniau rheoli i reoli'r prosiect awdurdodedig.
- Datgymhwys, cytundebau eraill, caniatadau a thrwyddedau.

f. Perthynas ag estyniad arfaethedig y Grid Cenedlaethol i is-orsaf Bodelwyddan a newidiadau i drefniadau llinellau uwchben yn yr ardal hon.

4. Y Dynesiad i Drwyddedi Morol

a. Rhyngweithiadau rhwng y DML (Atodlen 14 y dDCO) a thrwydded forol asedau trawsyrro ar wahân (ML), gan gynnwys:

- cysondeb o'r darpariaethau; a
- mecanwaith ar gyfer delio â'r gorgyffwrdd ffisegol mewn trwyddedau.

b. Dynesiad at drwyddedu gweithgareddau datgomisiynu.

c. Materion drafftio DML, i gynnwys:

- trosglwyddo o'r drwydded;
- amserlenni ar gyfer cymeradwyaethau dilynol;
- dynesiad at ddynodi safle gwaredu; a
- terminoleg a phwyntiau i'w hegluro.

5. Newidiadau i'r Datblygiad Arfaethedig

Gofynnir i'r Ymgeisydd gadarnhau a yw'n bwriadu ceisio gwneud unrhyw newidiadau i sgôp y Datblygiad Arfaethedig o ganlyniad i gyflwyniadau Partion â Buddiant (IPs) neu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ers cyflwyniad y cais.

6. Adolygiad o'r materion a'r gweithredau sy'n codi

7. Unrhyw fusnes arall

8. Cau'r gwrandawriad

Cyfranogiad

Rhaid i chi gofrestru erbyn y Dyddiad Cau Trefniadol, **Dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**, os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawriad hwn. Rhaid i unrhyw gais i gymryd rhan yn y gwrandawriad gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- enw a rhif cyfeirnod unigryw (ar frig eich llythyr neu e-bost oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio);
- cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw berson/sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli (os yw'n berthnasol);
- yr eitem agenda yr ydych am siarad â rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud;
- cadarnhad a fyddwch chi'n cymryd rhan yn rhithiol neu'n bersonol;
- cyfeirnod Llyfrgell yr Archwiliad (gyda rhif paragraff/tudalen lle bo'n briodol) unrhyw ddogfennau yr hoffech gyfeirio atynt;
- ac unrhyw ofynion arbennig sydd gennych (ee mynediad i'r anabl neu ddolen glyw).

Pwrpas yr ISH

Mae'r gwrandawriad cynnar hwn ar y cwmpas a manylion y Datblygiad Arfaethedig, ac egwyddorion Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Ymgeisydd (DCO) yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â materion a chwestiynau a nodwyd gan yr Awdurdod Archwilio drwy ei ddarlleniad o'r cyflwyniadau hyd yma, gan gynnwys y Cynrychioliadau Perthnasol.

Mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn y byddai'n fuddiol archwilio'r materion hyn mewn gwrandawriad ar ddechrau'r Archwiliad er mwyn hwyluso dealltwriaeth o natur a chwmpas y Datblygiad Arfaethedig. Gall yr eitemau ar yr agenda cael ei ddilyn gan gwestiynau gan yr Awdurdod Archwilio a chynrychioliadau gan bartïon eraill.

Mynychwyr

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawriad hwn.

- **Yr Ymgeisydd**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)**
- **Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)**
- **Llywodraeth Ynys Manaw (IoMG)**
- **Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM)**
- **Tim Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru (TTM CNC)**
- **Cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CCNC)**
- **National Grid Electricity Transmission Plc (NGET)**
- **Unrhyw Bartïon eraill â Buddiant (IPs)** – sydd â diddordeb yng nghwmpas y Datblygiad Arfaethedig.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn awgrymu na fydd partiön eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïön â Buddiant (IP) i fod yn bresennol a chyflwyno sylwadau llafar ar y materion a nodir yn yr Agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawriad.

Mae'r ExA wedi ceisio darparu digon o fanylion i gynorthwyo'r partiön i baratoi ar gyfer y gwrandawriad. Mae'r manylion a nodir uchod yn ddangosol ac efallai y bydd angen i'r ExA gynnwys eitemau ychwanegol ar yr Agenda neu ddiwygio'r drefn y mae'r eitemau'n cael ei thrin.

Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd dolen ar gyfer gwylio'r llif byw yn cael ei bostio [ar dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#) yn nes at ddyddiad y gwrandawriad. Felly gall IPs ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawriad weld a gwrandawrio ar y gwrandawriad gan ddefnyddio'r llif byw, neu weld a gwrandawrio ar y recordiad, ar ôl iddo ddod i ben.

Gweithdrefn yn ISH

Mae canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai mater i'r Awdurdod Archwilio yw archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynau uniongyrchol o bersonau sy'n cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawriadau.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y gwrandawriad yn y fath fodd fel na fydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn arwain y gwaith o holi'r partiön sy'n cyflwyno sylwadau llafar ac yn archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth. Fel arfer nid oes unrhyw bartïön eraill yn croesholi tystion, er bod gan yr Awdurdod Archwilio'r pŵer i ganiatáu hyn dan rai amgylchiadau.

Daw'r gwrandawriad i ben pan fydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn bod yr holl faterion wedi'u cynnwys a bod yr holl gyfranogwyr wedi cael cyfle i wneud eu sylwadau. Fel canllaw, nod yr ExA yw cau'r gwrandawriad erbyn tua 5yp. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig.

Dylid cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar lafar yng Ngwrandawriad Mater Penodol 1 mewn cyflwyniadau ar ôl y gwrandawriad i'w cyflwyno erbyn Dyddiad Cau 1 yn yr Amserlen Arholiadau ddrafft (7 Awst 2024). Byddai'r Awdurdod Archwilio yn argymhell i unrhyw bartïön sy'n newydd i'r broses ac sy'n dymuno dysgu mwy am y cefndir a'r gweithdrefnau mewn gwrandawriadau i ddarllen [Nodyn Cyngor 8.5 yr Arolygiaeth Gynllunio, Yr Archwiliad: gwrandawriadau ac archwiliadau safle](#).